**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 09:00 ddydd Iau 20 Hydref yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

## Gweinidogion a oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC | Y Prif Weinidog |
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |

## Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Lloyd Powell | Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig |
| Emma Watkins | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Leighton Jenkins | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Paul Byard | EEF (Cadeirydd Commerce Cymru) |
| Martin Warren | Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr |
| Jean Church | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Sarah McMonagle | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Ben Cottam | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Lowri Morgan | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| David Morgan | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Nigel Keane | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Alex Bevan | TUC Cymru |
| Mike Jenkins | TUC Cymru |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Julie-Ann Haines | Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi |
| Ifan Glyn | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Ian Gallagher | Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Mark Harris | Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Robert Lloyd Griffiths | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Huw Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Heather Eason | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Mark Judd | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Nick Ireland | TUC Cymru |

## Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Syr Derek Jones | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| James Price | Y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol |
| Piers Bisson | Eitem 3 ar yr agenda |
| Tracey Burke | |
| Des Clifford | Eitem 3 ar yr agenda |
| Margaret Davies | Eitem 2 ar yr agenda |
| Mick McGuire | |
| Huw Morris | |
| Jonathan Price | |
| Matt Wellington | Eitem 5 ar yr agenda |
| Jane Anstee | Cofnodwr |
| Derek Goode | Cofnodwr |

## 1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a nododd y prif eitemau ar yr agenda:

- Cyllideb Llywodraeth Cymru
- Pontio o ran yr UE
- Ymgysylltu yn y dyfodol
- Y Rhaglen Lywodraethu

## 2. Cyllideb Llywodraeth Cymru

2.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yr eitem hon a'r papur ategol. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y ddau amcan a oedd yn sail i'r Gyllideb:

- Sefydlogrwydd – un amcan allweddol yw darparu sefydlogrwydd a hyder mewn amgylchedd ansicr;

- Uchelgais – mae'r Gyllideb yn ceisio sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â rhaglen uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, a nodir yn Symud Cymru Ymlaen.

Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cyllideb ddrafft 2017-18 wedi'i chyflwyno gerbron y Cynulliad ar 18 Hydref a'i bod wedi'i datblygu yng nghyd-destun sefyllfa ariannol heriol, yn enwedig o safbwynt effaith cynlluniau cyni Llywodraeth y DU a'r ansicrwydd ynghylch cynnwys Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 23 Tachwedd.

2.2 Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet sut yr oedd wedi ystyried cyllideb refeniw 3 blynedd, ond bod graddau'r ansicrwydd wedi peri iddo ddod i'r casgliad mai dim ond cyllideb refeniw 1 flwyddyn fyddai'n bosibl.

2.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod mwy o sicrwydd ynghylch cynlluniau cyfalaf ac mai dyna pam yr oedd wedi penderfynu cyhoeddi cynlluniau cyfalaf 4 blynedd er mwyn helpu i ddarparu rhywfaint o sicrwydd i fyd busnes a phartneriaid eraill. Oherwydd nad oedd gan Lywodraeth Cymru fwyafrif cyffredinol, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod trafodaethau wedi'u cynnal â Plaid Cymru er mwyn galluogi'r Gyllideb i fynd rhagddi.

2.4 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am farn ynghylch y blaenoriaethau a oedd wedi'u nodi yn y Gyllideb a'r modd y gallai partneriaid cymdeithasol wneud yn fawr o'r cyfle i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

2.5 Croesawodd Mike Jenkins y sefydlogrwydd yr oedd cynigion y Gyllideb yn ei gynnig, a'r modd yr oeddent yn gwarchod gwasanaethau cyhoeddus. Ychwanegodd y dylai materion sy'n ymwneud â gweithlu'r sector cyhoeddus fod yn flaenoriaeth. Croesawodd y cynigion ynghylch cyllideb gyfalaf 4 blynedd, a phwysleisiodd y dylai cyllid ar gyfer prosiectau mawr megis Metro De Cymru gael ei flaenoriaethu, gan ofyn am fwy o gyllid gan y sector preifat.

2.6 Cafodd yr ymdeimlad o uchelgais yn y gyllideb gyfalaf 4 blynedd ei groesawu a'i gydnabod gan Ben Cottam. Ychwanegodd fod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i dai fforddiadwy, prentisiaethau a'r metro yn ganlyniadau allweddol i'w cyflawni, ac ymrwymodd i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y 18 mis nesaf.

2.7 Diolchodd Derek Walker i Ysgrifennydd y Cabinet am y manylion a oedd yn y papur. Esboniodd yr angen am fwy o ffocws ar weithgarwch economaidd lleol, yr oedd ei angen yn fwy fyth oherwydd gwaith pontio'n ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf. Pwysleisiodd sut yr oedd rhywfaint o'r gwaith dadansoddi ar ôl y bleidlais i ymadael â'r UE wedi dangos diffyg cysylltiad rhwng rhai cymunedau a'r Llywodraeth; awgrymodd fod mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad hwnnw drwy ganolbwyntio o'r newydd ar economïau lleol yn bwysig. Cyfeiriodd at y gwaith a ariennir gan yr UE i helpu busnesau yn ystod y cyfnod cyn iddynt ddechrau, sy'n helpu cymunedau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

2.8 Croesawodd David Morgan y papur a phwysleisiodd bwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith mawr, megis ffordd liniaru'r M4 yn enwedig.

2.9 Croesawodd Sarah McMonagle yr ymrwymiad i 100,000 o brentisiaethau pob oed, ond awgrymodd y byddai angen i'r ymrwymiad hwnnw gael ei ategu gan strategaeth sgiliau fwy manwl er mwyn i'r prentisiaethau gael eu targedu mewn sectorau priodol.

2.10 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r aelodau am eu barn a gorffennodd drwy bwysleisio bod angen i'r 18 mis nesaf gael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cynllunio ar gyfer y cyfnod anodd sydd i ddod. Dywedodd y byddai gwariant cyfalaf yn helpu i ysgogi gwaith buddsoddi mewn seilwaith newydd hanfodol, mewn tai, mewn trafnidiaeth, mewn swyddi ac yn ffyniant Cymru yn y dyfodol.

## 3. Pontio o ran yr UE

3.1 Esboniodd y Prif Weinidog fod yr eitem hon ar yr agenda er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ers cyfarfod arbennig y Cyngor ym mis Gorffennaf.

3.2 Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau'r telerau ymadael gorau posibl ar gyfer Cymru. I'r perwyl hwnnw, esboniodd y Prif Weinidog fod parhau i gael mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl yn flaenoriaeth bendant, oherwydd byddai unrhyw gamau i gyflwyno tariffau neu rwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau'n tanseilio buddiannau busnesau yng Nghymru sy'n allforio, a byddent yn bygwth yr hyn y mae Cymru yn gallu ei gynnig yn y gystadleuaeth fyd-eang am fuddsoddiadau uniongyrchol o dramor. Pwysleisiodd y Prif Weinidog ei fod yn parhau i ddatgan y blaenoriaethau hyn yn glir iawn wrth Lywodraeth y DU.

3.3 Gofynnodd y Prif Weinidog i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gyflwyno’r papur diweddaru.

3.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol na fyddai’r broses o ymadael â’r UE yn hawdd nac yn gyflym. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gan Lywodraeth Cymru ddau amcan cyn ac ar ôl gweithredu Erthygl 50:

i. Helpu i lunio safbwynt Llywodraeth y DU ar gyfer trafodaethau, yn enwedig mewn achosion lle mae cyfrifoldebau datganoledig a/neu fuddiannau Cymreig allweddol yn y fantol;

ii. Dylanwadu gymaint ag sy’n bosibl ar y trafodaethau manwl, pan fydd Erthygl 50 wedi’i gweithredu.

3.5 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi pennu chwe blaenoriaeth yn syth ar ôl y refferendwm ynghylch yr UE, a bod modd eu crynhoi fel a ganlyn:

- diogelu swyddi a sicrhau hyder byd busnes yn dilyn y refferendwm;
- sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynghylch proses y DU ar gyfer ymadael â’r UE;
- sicrhau bod mynediad llawn a dirwystr i farchnad sengl yr UE yn parhau;
- diogelu cyllid a gyllidebwyd dan raglenni cyfredol yr UE;
- diwygio ariannol er mwyn sicrhau cyllid teg yn y dyfodol i Gymru;
- perthynas newydd rhwng llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU.

3.6 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod cynnydd wedi’i wneud yng nghyswllt nifer o’r blaenoriaethau hynny. Yn benodol, soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am ymrwymiad Trysorlys y DU i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau’r UE a gymeradwywyd cyn i’r DU ymadael. Fodd bynnag, ychwanegodd nad oedd yr addewid hwnnw’n ddigonol, o ystyried y gallai’r DU ymadael â’r UE cyn 2020 (sef diwedd cyfnod y rhaglenni cyfredol). At hynny, mae safbwynt presennol Trysorlys y DU yn anwybyddu’r posibilrwydd y bydd Cymru wedi cymhwyso i gael cyllid sylweddol ar ôl 2020. Felly, roedd Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gyflawni’r ymrwymiadau a wnaed gan yr ymgyrch dros ymadael â’r UE, sef na fyddai Cymru yn colli unrhyw gyllid y mae’n ei gael ar hyn o bryd.

3.7 Ailbwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd mynediad llawn a dirwystr i’r farchnad sengl, a mynegodd bryderon hefyd ynghylch yr effaith economaidd y gallai cyfyngiadau posibl ar ryddid pobl i symud ei chael ar economi Cymru. Dywedodd fod y Grŵp Cynghori ar Ewrop, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn cynnwys arweinwyr byd busnes, gwleidyddion a phobl eraill sydd ag arbenigedd a diddordeb penodol mewn materion Ewropeaidd, yn ffynhonnell bwysig o gyngor.

3.8 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i’r Cyngor beidio â rhannu’r papur “cyfrinachol” ar gyfer eitem 3 ar yr agenda â phobl y tu allan i’r ystafell, oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

3.9 Nododd Jean Church fod aelodau Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn poeni am ddiffyg eglurder Llywodraeth y DU ynghylch ei safbwynt ar gyfer trafodaethau. Nid oedd yr ansicrwydd hwnnw'n amgylchedd ffafriol o ran galluogi byd busnes i wneud penderfyniadau hirdymor. Roedd o'r farn y byddai ansicrwydd parhaus yn peri i aelodau Sefydliad y Cyfarwyddwyr ganolbwyntio o'r newydd ar fasnachu yn y DU.

3.10 Cytunodd Emma Watkins fod sicrhau mynediad llawn i'r farchnad sengl yn bwysig. Tynnodd sylw hefyd at bryder ynghylch effaith unrhyw gyfyngiadau ar ryddid pobl i symud, o safbwynt economaidd ac o safbwynt byd busnes, a thynnodd sylw at rywfaint o waith modelu sy'n cael ei wneud gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain er mwyn ymchwilio i effaith ehangach ymadael â'r UE.

3.11 Dywedodd Martin Warren ei fod yn croesawu'r papur diweddaru. Pwysleisiodd fod cyllid gan yr UE yn sail i agweddau allweddol ar gymorth busnes yng Nghymru, a phwysleisiodd yr angen i ystyried cynlluniau wrth gefn pe na bai'r cyllid hwnnw ar gael yn y dyfodol.

3.12 Dywedodd Martin Mansfield fod yn rhaid i lais Cymru gael ei glywed o amgylch y bwrdd trafod. Esboniodd y byddai ymadael â'r UE yn cynnig heriau diwydiannol a chymdeithasol y bydd angen eu hystyried o ddifrif. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru ailystyried ei strwythurau cynghori a chyflawni economaidd.

3.13 Croesawodd Ben Cottam y papur. Roedd o'r farn bod mynediad parhaus i farchnad sengl yr UE yn bwysig iawn i'w aelodau, a mynegodd bryder y gallai cwmnïau bach weld bod eu mynediad i'r farchnad honno'n lleihau. Soniodd ef hefyd am yr effaith y gallai cyfyngiadau posibl ar ryddid pobl i symud ei chael ar fyd busnes, a soniodd am effaith unrhyw ddisgwyliad y dylai byd busnes chwarae rôl yn y gwaith o gadw llygad ar faterion mudo yng nghyswllt gweithwyr. Ychwanegodd y gallai'r Grŵp Cynghori ar Ewrop elwa o gynnwys cynrychiolydd ar gyfer busnesau bach.

3.14 Croesawodd Lloyd Powell y papur. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau mynediad i'r farchnad sengl, a hawliau'n ymwneud â Phasportau Ariannol Ewropeaidd.

3.15 Daeth y Prif Weinidog â'r drafodaeth i ben drwy bwysleisio cymhlethdod y broses o ymadael â'r UE a'r heriau sy'n wynebu Llywodraeth y DU wrth orfod trafod â'r UE a 27 o aelod-wladwriaethau eraill. Roedd yr aelod-wladwriaethau hynny'n cynnwys Sbaen yr oedd ei Senedd wedi bygwth rhoi feto ar unrhyw gytundeb oni bai bod Llywodraeth y DU hefyd yn newid ei safbwynt ynghylch statws Gibraltar yn y dyfodol. Pwysleisiodd fod y ffaith nad yw Llywodraeth y DU mor belled wedi gallu cynnig darlun cydlynol o'r modd cyffredinol y byddai'n ymdrin â'i thrafodaethau â'r UE yn siomedig ac yn tanseilio hyder. Aeth y Prif Weinidog yn ei flaen i ddweud mai negeseuon cymysg oedd gan Lywodraeth y DU ynghylch materion craidd megis mynediad i'r farchnad sengl, statws dinasyddion yr UE yn y DU, a dull y DU o ymdrin yn y dyfodol â rhyddid pobl i symud.

Pwysleisiodd y Prif Weinidog mai ei farn ef oedd y byddai'r UE yn bargeinio'n galed ynghylch telerau ymadael y DU, er mwyn atal aelod-wladwriaethau eraill a allai fod yn ystyried ymadael. Roedd hefyd yn pryderu y gallai Llywodraeth y DU geisio rhoi blaenoriaeth i sectorau penodol mewn unrhyw drafodaethau, ac y gallai hynny ddigwydd ar draul sectorau eraill megis gweithgynhyrchu. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n parhau i hybu a diogelu buddiannau Cymru, ac y byddai mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl yn parhau'n flaenoriaeth allweddol. Pwysleisiodd y Prif Weinidog y pwynt hwn drwy sôn am ei ymweliad datblygu masnach diweddar â'r Unol Daleithiau. Y neges a gafwyd yno gan arweinwyr byd busnes a buddsoddwyr rhyngwladol oedd bod penderfyniadau buddsoddi mawr yn cael eu gohirio nes y byddai natur cydberthnasau masnachu'r DU yn y dyfodol yn glir.

## 4. Ymgysylltu yn y dyfodol

4.1 Esboniodd y Prif Weinidog fod tri phapur yn gysylltiedig â'r eitem hon ar yr agenda. Er bod y papurau gwahanol yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol pob un o'r partneriaid cymdeithasol, nododd fod awydd clir i ddiweddaru'r dull o ymdrin â strwythurau cynghori. Esboniodd y Prif Weinidog ei fod am i'r Cyngor, wrth ystyried y papurau hyn, drafod dau fater, sef (i) rôl a ffurf y Cyngor wrth symud ymlaen a (ii) y dull o ymdrin â'r fframwaith cynghori ehangach. Dywedodd mai'r amcan yw sicrhau bod y dull o ymgysylltu yn addas i'w ddiben, a dywedodd fod barn aelodau'r Cyngor yn bwysig o ran hynny.

Dyma'r tri phapur a oedd i'w trafod:

- Papur cwmpasu Llywodraeth Cymru ynghylch y dull o ymdrin â strwythurau cynghori'r dyfodol, a oedd yn canolbwyntio ar y fframwaith cynghori sy'n ymwneud â byd busnes a'r economi;
- Papur gan TUC Cymru ynghylch gwaith cyflawni economaidd a strwythurau partneriaethau cymdeithasol;
- Papur gan Commerce Cymru ynghylch dull partneriaid cymdeithasol o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Prif Weinidog i Martin Mansfield a Paul Byard gyflwyno papurau TUC Cymru a Commerce Cymru.

4.2 Esboniodd Martin Mansfield fod yn rhaid i bapur TUC Cymru gael ei ystyried drwy brism papur TUC Cymru yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf – ynghylch gwaith ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol – a bod yn rhaid iddo gael ei ystyried hefyd yng nghyd-destun yr heriau economaidd y mae Cymru yn eu hwynebu. Gwnaeth y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Yr angen i ddatblygu fframwaith cynghori a chyflawni hyblyg a chlir, sy'n ystyried cylchoedd gorchwyl presennol sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd a chyfrifoldebau aneglur;

- Bod lle i'r Cyngor gyflawni swyddogaeth debyg i rôl gynghori, gan gasglu adborth gan y ddwy ochr i ddiwydiant a chynnwys barn sectorau penodol a'r sector addysg uwch/addysg bellach;

- Bod ymdeimlad o frys ynghylch yr angen i weithredu'n gyflym, er mwyn sicrhau gwaith ymgysylltu effeithiol ac addas i'w ddiben â rhanddeiliaid;

- Yr angen am un strwythur cyflawni rhanbarthol a chydlynol a grŵp strategaeth â ffocws, a fyddai'n gallu trafod materion mewn amser real â Gweinidogion.

4.3 Soniodd Paul Byard am yr heriau sylweddol y mae economi Cymru yn eu hwynebu, a bod hynny'n gofyn am weithredu'n syth er mwyn diogelu economi Cymru a sicrhau ei bod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Cyfeiriodd at yr angen am Strategaeth Economaidd a Strategaeth Ddiwydiannol. Pwysleisiodd mor bwysig oedd hi bod Llywodraeth Cymru yn gwrando ar fyd busnes, a chyfeiriodd at yr argymhelliad yn y papur, sef y dylid sefydlu Grŵp Cynghori ar Fusnes.

4.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod mewnbwn y Cyngor a lefel y diddordeb a'r ymgysylltu wedi ei blesio ac wedi gwneud argraff arno. Ychwanegodd fod ymgysylltu'n ystyrlon yn waith cymhleth ond bod y themâu sy'n dod i'r amlwg yn debyg, megis pwysigrwydd sgiliau a seilwaith. Dywedodd ei fod yn fodlon â'r papurau, y mae llinynnau cyffredin yn perthyn iddynt, sy'n cynnwys osgoi dyblygu a chael y strwythur rhanbarthol cywir.

4.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch blaenoriaethau economaidd. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, roedd hefyd yn ystyried ffurf strwythurau cynghori yn y dyfodol. Tynnodd sylw at y ffaith bod yr angen i symleiddio strwythurau cynghori yn thema gyffredin. Ychwanegodd fod pedair strategaeth drawsbynciol ac mai'r Strategaeth Ffyniannus a Diogel oedd yr un fwyaf perthnasol i'r economi, ond y byddai llinyn economaidd o bwys yn perthyn i'r tair strategaeth arall hefyd. Nod y strategaethau hynny oedd galluogi a hybu gweithredu cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth.

4.6 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y gallai fod yn anodd cael consensws yn y cyfarfod, o ystyried safbwyntiau gwahanol y partneriaid cymdeithasol – awgrymodd efallai yr hoffai grŵp llai o bartneriaid cymdeithasol ystyried y materion hyn.

4.7 Dywedodd Derek Walker ei fod yn cytuno â llawer o brif fyrdwn y papurau, ac yn benodol â'r angen i symleiddio strwythurau ymgysylltu. Awgrymodd y dylid myfyrio ynghylch y ffordd ymlaen, ac y dylid ymdrin â ffurf ar ôl ymdrin â swyddogaeth fel bod unrhyw strwythurau newydd yn cael eu seilio ar syniadau sy'n dod i'r amlwg yn y strategaeth economaidd newydd.

4.8 Soniodd Emma Watkins am yr angen i ganolbwyntio ar ddeilliannau ac am y ffaith y byddai'n anodd pennu strwythurau cynghori newydd cyn gweld deilliannau, blaenoriaethau ac amcanion y strategaeth economaidd newydd.

4.9 Bu Paul Byard yn myfyrio ynghylch y farn y dylai unrhyw newidiadau i strwythurau cynghori ddilyn y strategaeth economaidd, a gofynnodd a ddylid pennu amserlen.

4.10 Soniodd Ben Cottam am gymhlethdod strwythurau cynghori a'r gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â nhw. Pwysleisiodd fod angen eglurder ynghylch y blaenoriaethau economaidd yn gyntaf cyn y gellir cymryd penderfyniadau pendant ynghylch y fframwaith cynghori priodol. Awgrymodd y byddai Grŵp Cynghori ar Fusnes (fel y nodir ym mhapur Commerce Cymru) yn ddefnyddiol.

4.11 Soniodd Martin Mansfield am y Grŵp Cynghori ar Fusnes yn y cyd-destun bod gan TUC Cymru un llais cyffredinol, a oedd yn wahanol i'r modd y câi byd busnes ei gynrychioli. Pwysleisiodd yr angen am driniaeth deg a chyfartal ar gyfer y ddwy ochr i ddiwydiant.

4.12 Yn ogystal, awgrymodd Martin Mansfield fod yr heriau mor fawr fel na fyddai'n briodol disgwyl am ganlyniad gwaith strategol cyn ymdrin â strwythurau cynghori a chyflawni. Bydd strwythur cyflawni rhanbarthol yn ofynnol ar gyfer yr angen i fynd i'r afael â'r anfantais sydd wedi ymsefydlu mewn rhannau o Gymru.

4.13 Pwysleisiodd David Morgan y dylai gwaith y strategaeth economaidd ddod yn gyntaf, ac yna'r strwythur.

4.14 Cydnabu Jean Church fod y strwythurau presennol yn rhy amrywiol a chymhleth. Dywedodd fod angen cadw pethau'n syml a bod angen eglurder ynghylch y cyfeiriad yr eir iddo, cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud. Croesawodd y syniad o sefydlu Grŵp Cynghori ar Fusnes.

**GWEITHREDU**: Dywedodd y Prif Weinidog na fyddai modd dod i gytundeb heddiw ac awgrymodd fod angen rhagor o waith gan y Gweithgor Gweithredol. Bydd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn cymryd rhan yn y cyfarfod hwnnw sydd i'w drefnu ar ddyddiad yn ystod y pythefnos nesaf.

4.15 Nododd Martin Mansfield fod paragraff 12 papur Commerce Cymru yn cyfeirio at drethi a chynllunio. Esboniodd Martin fod y materion hyn yn bwysig i bobl Cymru yn ogystal â busnesau.

## 5. Y Rhaglen Lywodraethu

5.1 Esboniodd y Prif Weinidog fod Symud Cymru Ymlaen yn nodi ymrwymiadau trawsbynciol allweddol a fydd yn helpu i sicrhau bod pobl Cymru:

- Yn Ffyniannus ac yn Ddiogel;
- Yn Iach ac yn Egnïol;
- Yn Uchelgeisiol ac yn Dysgu;
- Yn Unedig ac yn Gysylltiedig.

5.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod Symud Cymru Ymlaen yn adlewyrchu awydd ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio'n gydweithredol.

5.3 Ychwanegodd y Prif Weinidog fod y pum mlynedd nesaf yn hollbwysig ac mai'r her iddo ef oedd sicrhau polisi a gwaith cyflawni cydgysylltiedig. Dywedodd y Prif Weinidog fod y Rhaglen Lywodraethu yn drawsbynciol yn fwriadol. Ychwanegodd y Prif Weinidog ei bod yn fwriad i'r ddogfen fod yn fyrrach ac yn haws i'r cyhoedd ei deall na'r ddogfen a oedd yn ei rhagflaenu.

5.4 Dywedodd Martin Warren ei bod yn dda bod y ddogfen yn dangos bod band eang yn ymrwymiad allweddol. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y gellid bod wedi rhoi rhagor o bwys ar faterion eraill ym maes telathrebu.

5.5 Cytunodd y Prif Weinidog fod cysylltedd yn hollbwysig a bod Cyflymu Cymru yn helpu o ran hynny, a dywedodd y byddai gan 96% o safleoedd yng Nghymru fynediad i fand eang erbyn yr haf nesaf.

5.6 Croesawodd Martin Mansfield y dull gweithredu cyffredinol a dywedodd y byddai'n hoffi trafod yn fanwl yr ymrwymiadau sydd yn Symud Cymru Ymlaen, pan fyddai hynny'n gyfleus.

5.7 Ychwanegodd Martin Mansfield fod Symud Cymru Ymlaen yn bwysig iawn i weithwyr, a bod ymrwymiadau megis swyddi gwell yn nes at adref yn enwedig yn berthnasol tu hwnt. Roedd yn pryderu ynghylch y cynigion ar gyfer y fasnachfraint ddielw'n ymwneud â rheilffyrdd, ond dywedodd y byddai'n anfon neges ar wahân at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch y mater hwnnw.

5.8 Dywedodd Emma Watkins fod y cynnig i ddarparu gofal plant rhad ac am ddim i blant 3-4 oed yn cael ei groesawu, oherwydd gallai annog rhagor o bobl i ddechrau gweithio. Gofynnodd a oedd modd i'r Prif Weinidog bennu amserlen ar gyfer y cynnig hwn.

5.9 Dywedodd David Morgan fod angen i'r cynllun prentisiaethau gynorthwyo busnesau a'r prosiectau seilwaith mawr sydd yn yr arfaeth. Gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch sut y byddai'r cynllun prentisiaethau'n gweithredu.

5.10 Soniodd Ben Cottam am bwysigrwydd meddwl am genhedlaeth nesaf y gweithlu, ac er mwyn gwneud hynny'n effeithiol bod angen i ni integreiddio addysg a busnes yn well. Ychwanegodd fod angen rhoi profiad o waith i bobl ifanc, ac y dylai hynny ddigwydd yn ddelfrydol cyn i blant gyrraedd addysg uwchradd. Ychwanegodd Ben y byddai'n rhannu canlyniad y gwaith y mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn ei wneud ar hyn o bryd yn y maes hwn.

5.11 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r 30 awr o ofal plant i blant 3-4 oed yn cael eu darparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio mwy nag 16 awr. Ychwanegodd ei fod yn ymwybodol bod capasiti a chost yn broblem mewn rhai rhannau o Gymru a bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i hynny. Ychwanegodd y Prif Weinidog y byddai'r cynllun peilot yn cychwyn ym mis Medi y flwyddyn nesaf.

5.12 Dywedodd y Prif Weinidog fod gan yr Alban fwy o ddewis o ran ei model ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd ond bod Cymru wedi cael ei gorfodi i ddewis y model dielw. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn diogelu amodau a thelerau gweithwyr.

5.13 Dywedodd y Prif Weinidog fod lefelau diweithdra yng Nghymru yn is o lawer yn awr nag yr oeddent yn y gorffennol. Yr her allweddol heddiw yw nid nifer y swyddi ond ansawdd a sicrwydd cyflogaeth. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn siarad â phobl yng Nghymru am eu pryderon. Mae'r pryderon hynny'n cynnwys sicrwydd swyddi, contractau dim oriau, cyflogau isel, diffyg pensiynau, swyddi rhan-amser a diffyg cyfleoedd i symud ymlaen. Dywedodd y Prif Weinidog nad yw pobl yn teimlo bod ganddynt y sicrwydd a oedd gan eu rhieni, er gwaethaf y lefelau isel o ddiweithdra.

5.14 Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i'r pwynt a wnaed gan David Morgan ynghylch prentisiaethau. Soniodd am y bartneriaeth yn y gogledd lle'r oedd ysgolion a byd busnes yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau bod gweithwyr yn fedrus ac yn barod ar gyfer Prosiect Horizon Ynys Môn. Ychwanegodd fod y gyfradd ar gyfer cwblhau prentisiaethau yng Nghymru yn ardderchog – 86% – a bod Julie James wedi cyhoeddi 100,000 o brentisiaethau pob oed a'r rhaglen gyflogadwyedd pob oed, sy'n cynnig un pwynt cyswllt i ddiwydiant a gweithwyr.

5.15 Diolchodd David Morgan i'r Gweinidog am ei ymateb.

## 6. Cyfarfodydd blaenorol

6.1 Esboniodd y Prif Weinidog fod dwy set o nodiadau cyfarfod i'w cymeradwyo oherwydd nad oedd cyfle wedi codi i gymeradwyo cofnodion yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r aelodau am sylwadau a gofynnwyd iddynt gytuno bod y cofnodion yn gywir.

6.2 Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2016

Cytunwyd eu bod yn gywir.

6.3 Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016

Cytunwyd eu bod yn gywir.

6.4 Y grid camau gweithredu

Dywedodd y Prif Weinidog fod y grid camau gweithredu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd – roedd yna ddeg ymrwymiad neu gam gweithredu ac roedd chwech ohonynt wedi'u cwblhau. O'r rhai a oedd heb eu cwblhau:

- Mae diweddariad wedi'i baratoi ynghylch y Gronfa Twf a Ffyniant a'r Cynllun Hyder Busnes;
- Bydd y Prif Weinidog yn mynychu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion ddydd Llun;
- Mae'r cynlluniau cysylltiadau cyhoeddus ynghylch meysydd cytundeb yn dal i gael eu llunio a gellir eu trafod yn y Gweithgor Gweithredol;
- Bydd y Gweithgor Gweithredol yn trafod amseru papur y Cyngor ynghylch Swyddi Gwell yn nes at Adref, gan mai'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol erbyn hyn.

## 7. Unrhyw fater arall

7.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall. Ni chafodd unrhyw fater arall ei godi.

7.2 Tynnodd y Prif Weinidog sylw'r Cyngor at y papur a oedd i'w nodi, a gyflwynwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ynghylch yr effaith ar Gymru yn dilyn Brexit.

7.4 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

## 8. Diwedd